CYPE(6)-23-22 – Papur i'w nodi 7

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
—
Children, Young People and Education Committee

Yr Arglwydd Kinnoull,
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol
Tŷ'r Arglwyddi

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

27 Hydref 2022

Galw am dystiolaeth

Annwyl Arglwydd Kinnoull,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Awst, yn gwahodd y Pwyllgor i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad i'r berthynas rhwng y DU ar UE yn y dyfodol.

Er nad ydym fel Pwyllgor wedi ymgymryd â rhyw lawer o waith yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad hwn, hoffem dynnu sylw eich Pwyllgor at waith y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, sy'n berthnasol. Yn benodol, adroddiad a gyhoeddwyd yn 2018 ar effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Mae'r adroddiad ar gael yma, ac mae ymateb Llywodraeth Cymru ar gael yma.

Hoffem dynnu'ch sylw hefyd at raglen Taith Llywodraeth Cymru, sy'n disodli rhaglen Erasmus+. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid cyfalaf o £65 miliwn ar gyfer y rhaglen, a fydd ar waith tan 2022-26. Nod y rhaglen yw rhoi arian i 15,000 o bobl o Gymru i ganiatáu iddynt fynd ar deithiau cyfnewid, a thalu i 10,000 o bobl ddod i Gymru.

Wrth drafod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23, gofynnwyd iddi'n diweddaru ynghylch y modd y caiff y rhaglen hon ei rhoi ar waith. Cawsom wybodaeth am chwe mis cyntaf y rhaglen yn ddiweddar, ac mae i'w gweld yma. Yn dilyn, hyn, rhoddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wybodaeth ar lafar am y rhaglen yn y Senedd, a dywedodd fod 28 o wledydd Ewrop wedi bod yn rhan o'r prosiectau. Mae'r manylion llawn i'w gweld yma. Efallai yr hoffech ystyried sut mae'r rhaglen hon yn gweithredu o'i gymharu â Chynllun Turing yn Lloegr.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi. Diolch am roi cyfle i ni gyfrannu at eich ymchwiliad.

Yn gywir

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.